LLEISIAU PENNAL

https://www.ysgolcorrisapennal.cymru/

CYNGOR YSGOL



Llongyfarchiadau i'r disgyblion yma ar gael ei ethol gan ddisgyblion yr ysgol i fod ar Gyngor yr Ysgol eleni. Rydym yn edrych ymlaen at weld yr effaith y byddant yn ei chael ar gymuned ein hysgol.

SWYDDOGION DIOGELWCH Y FFORDD



Eleni mae Melys a Hunter wedi cael eu penodi i fod yn Swyddogion Iau Diogelwch y Ffordd. Ei swydd nhw yw cadw pawb yn saff pam rydym yn gadael tir yr ysgol. "Rydym yn cael rhywun ar blaen y rhes pam mae pawb yn cerdded i rywle, ac un yn y cefn. Mae hyn yn neud yn siŵr fod neb yn mynd ar goll. Rydym hefyd yn cynllunio pethau hwyl. Dyletswydd arall sydd gennym yw casglu data am sut mae pawb yn dod i'r ysgol.

CRIW CYMRAEG



Mae'r disgyblion wedi ethol ein Criw Cymraeg newydd ar gyfer y flwyddyn. Bydd y criw yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr ysgol ac yn arwain ein gwaith ar Siarter yr Iaith. Byddant yn trefnu gweithgareddau, annog eraill i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol ac yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan fywiog o fywyd bob dydd yr ysgol.

SIOE PENNAL

Cyn gwyliau'r Haf bu disgyblion Ysgol Pennal yn brysur yn paratoi at Sioe Pennal. Llongyfarchiadau i'r enillwyr ar ddiwrnod Sioe Pennal diwedd mis Awst.



Addurno Weli
1af Willow Neal
2il Ayda Farmery
3ydd Oskar Larkin



Arlunio 'Yr Haf' Meithrin a Derbyn
1af Efa Thorndyke
2il Abigail Owen
3ydd Patrick Brunton

Arlunio 'Yr Haf' Blwyddyn 1 a 2
1af Ayda Farmery (Dangosiad Gorau)
2il Silyn Breese
3ydd Emilia Windsor-Lewis

Arlunio Blwyddyn 3 a 4 'Y Pedwar Tymor'
1af Jack Johnson-Griffiths
2il Robin Provost
3ydd Amy Turner



Arlunio Blwyddyn 5 a 6 'Y Pedwar Tymor'
1af Cali Higgs
2il Jack Windsor-Lewis
3ydd Melys Morus-Baird

Llawysgrifen
1af Jack Windsor-Lewis
2il Leafin Onnen a Cali Higgs
3ydd Curig Breese a Mely Morus-Baird

Crefft Blwyddyn 2 ac iau 'Cadw mi gei'
2il Emilia Windsor-Lewis
3ydd Patrick Brunton





Crefft Blwyddyn 3-6 'Cadw mi gei'
2il Jack Windsor-Lewis
3ydd Harry Rowlands



DATA

Mae Gloyn Byw Galluog Ac Uchelgeisiol wrth ei bodd efo ni am ddarllen data y tywydd ar orsaf dywydd Ysgol Pennal bob bore. Rydym ni wedi rhoi'r data mewn tabl, wedyn ar y graff llawr mawr. Rydym ni wedi defnyddio rheol bwysig darllen graff 'i fyny ac ar draws' er mwyn gwirio fod gwybodaeth y graff 'Tywydd Mis Medi' yn gywir.
Fel ac a ddwedwyd gan Efa.





DIWRNOD OWAIN GLYNDWR





Cawsom ni lawer iawn o hwyl yn gwneud celf Owain Glyndwr. Roedd cyfle i ni wisgo ein coronau Owain Glyndwr Tywysog Cymru i ddarllen, ysgrifennu ac actio sgript Owain Glyndwr a Brenin Lloegr. Roedd Brenin Lloegr eisiau dwyn tir Cymru! Rydym ni wedi dysgu fod Owain Glyndwr eisiau rheolau, arian, ysgol, prifysgol ac eglwys dim ond i Gymru. Roedd cael brwydr Owain Glyndwr yn erbyn Brenin Lloegr yn lot o hwyl! Yn Eglwys Sant Pedr ysgrifennodd Owain Glyndwr y llythyr i ofyn i Frenin Ffrainc am help. Mae cerflun Owain Glyndwr yn yr ardd, a chopi o'r llythyr a llun Owain Glyndwr yn dal ar y wal.
Fel ac a ddwedwyd gan Ioan a Patrick.



GIG BWNCATH

Aeth Blwyddyn 5 a 6 yr ysgolion dalgylch Dysynni i Ysgol Uwchradd Tywyn un pnawn Gwener i wylio Elidyr Glyn yn canu caneuon grwp'Bwncath'. Cyflwynodd ei hun a'r caneuon mae'n ei ganu fel rhan o'r grwp 'Bwncath'



MR PHORMULA

Daeth Ed Holden (Mr Phormula) atom dechrau mis Medi a chafodd y plant hynaf gyfle i arbrofi gyda geirfa mewn grwpiau er mwyn cyfansoddi can am ein dyfodol ni. Enw'r gan yw Sbarc Digidol Pennal.







PEL DROED YR URDD

Cafodd disgyblion Blwyddyn 5 a 6 y Ffederasiwn gyfle i gymryd rhan mewn cystadleuaeth pel-droed cymysg yr Urdd yn y Bala ar yr 18fed o Fedi. Roedd pawb wedi chwarae'n wych ac wedi mwynhau'n fawr.



ARBROFI DWR

Diolch i Heather, Partneriaeth Pennal am roi'r cyfle i ddisgyblion Ysgol Pennal fod yn rhan o'r 'Great UK WaterBlitz' sydd yn rhan o'r FreshWaterWatch gan EarthWatch. Gyda'r data a gasglwyd ar y diwrnod o afon Sychan, bydd yr ymchwil yn cael darlun da o safon y dwr ar draws y Deyrnas Unedig.











STEM MICROBIT

Mae'r disgyblion hynaf wedi cymryd rhan mewn dwy sesiwn ar lein gydag E-Sgol i ddysgu sut i godio a defnyddio micro:bit o amgylch dysgu STEM. Bu'r disgyblion yn casglu data golau o amgylch yr ysgol, cymharu canfyddiadau ag ysgolion eraill.





















REV RUTH

Rydym yn ddiolchgar i Rev. Dr Ruth Hansford o Dywyn am ddod atom i gynnal Gwasanaeth un bore Iau. Rydym yn edrych 'mlaen gweld 'Rev Ruth yn fuan.



PIC•COLLAGE

BORE COFFI MACMILLAN

Rydw i ar y Cyngor Ysgol. Fi sydd yn edrych ar ôl yr arian. Fi oedd yn casglu arian y bore coffi Macmillan ac roedd y Cyngor Dosbarth wedi fy helpu i ddosbarthu a chyfrif yr arian i gyd. Rydym ni wedi dysgu lot am y gwahanol ddarnau arian a sut fath o gyfrif sydd yn addas i gyfrif yn gynt. Rydym ni yn cofio fod 100c yn hafal i £1. Gweithiodd pawb efo'i gilydd i ysgrifennu y frawddeg rif adio a defnyddiodd 'Ceri Cyfrifiannell' i adio'r cyfanswm. Cododd Ysgol Pennal £84.50. Diolch yn fawr iawn i bawb ar y Cyngor Ysgol am drefnu diwrnod da.
Fel ac a ddwedwyd gan Patrick.







BARBECIW

Diolch yn fawr i Ffrindiau'r Ysgol am drefnu noson Barbeciw llwyddiannus iawn eto leni. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r rhieni trefnwyd y noson a fu'n helpu ar y noson. Codwyd o leia £1324.40 ar y noson. Diolch yn fawr i'r busnesau noddwyd y noson a theuluoedd am gyfrannu ar gyfer y barbeciw a'r stondinau nwyddau a chacennau/raffl.
Rydym wedi prynu offer mathemategol newydd yn ystod yr wythnosau diwethaf ar gyfer ein sesiynau mathemateg a mae'r plant wedi gweld nhw'n ddefnyddiol iawn yn barod. Bydd y pres yma yn gymorth mawr i ni ar gyfer prynu rhagor o adnoddau. Diolch yn fawr i'r gymuned a'n teuluoedd am gefnogi'r noson ac i Glan yr Afon am gael defnyddio'r lleoliad ar noson braf.










CODIO










Diolch yn fawr iawn i Mr Alex Clewet am ddod i'r ysgol i ddangos i ni sut i ddilyn cyfarwyddiadau i adeiladu efo cit 'Lego Spike Essential'. Rydym ni wedi dysgu cyd-weithio fel cwningod cyd-weithio efo ffrind. Pan mae un yn adeiladu, mae un gwirio'r gwaith. Rydym ni wedi dysgu codio'r cit lego efo blociau 'icon' i wneud i'r lego symud ac i oleuo golau. Roedd yna amser i chwarae ychydig gyda 'Indi' hefyd. Car bach ydi 'Indi'. Mae 'Indi' yn gwneud pethau gwahanol pan mae'n stopio ar fatiau lliw. Gwyrdd ydi mynd, melyn ydi arafu, porffor ydi troelli a coch ydi stopio. Rydym ni wedi dysgu rhoi'r cyfarwyddiadau yn y llefydd cywir i wneud i 'Indi' fynd. Glas ydi troi i'r dde a pinc ydi troi i'r chwith. Ni wnaeth wneud i 'Indi' deithio bellaf! Mae'n stopio ar ôl un metr os nad ydy o'n gweld mat lliw.
Fel ac a ddwedwyd gan Mabli ac Abi.

GWEITHDY SENEDD







Diolch yn fawr i Bethan Roberts am ddod mewn i sgwrsio gyda dosbarth hynaf am y Senedd a rôl yr aelodau. Roedd pawb wedi mwynhau ac wedi dysgu llawer ac yn cael pleidleisio ffug.

TROSGLWYDDO



Mae disgyblion Blwyddyn 6 wedi bod ar ddau ddiwrnod trosglwyddo tymor yma. Un diwrnod yn Ysgol Bro Hyddgen ac un diwrnod yn Ysgol Uwchradd Tywyn. Llongyfarchiadau i Bleddyn am dderbyn tystysgrif Gwyddonwr yr Wythnos yn Ysgol Uwchradd Tywyn.

AILGYCHWYN Y GALON



Rydym ni wedi dysgu sut i ailgychwyn y galon. Cyn rhoi cynnig ar ailgychwyn y galon rhaid gwirio ydi hi'n ddiogel i helpu. Wedyn gweiddi am help a galw 999. Yna, rhaid gwasgu yn galed. Roedd ymarfer ar bel rygbi yn grêt ond roedd raid dal ati a gweithio yn gorfforol galed iawn!
Fel ac a ddwedwyd gan River a Willow.



SIALENS DDARLLEN YR HAF

Derbyniodd Curig a Silyn fedal gan Llyfrgell Gwynedd ar ol cwblhau her genedlaethol Sialens Ddarllen yr Haf 'Cyfrolau'n Canu'. Roedd y ddau wedi llwyddo i fynychu'r llyfrgell o leiaf 3 gwaith dros Wyliau'r Haf a darllen o leiaf 6 llyfr.
Da iawn chi.

CELF BWYD





Robin Robot ydy'n thema ni. Dyma ein robot celf bwyd. Rydym ni wedi dilyn y cyfarwyddiadau i greu y robotiaid, wedi creu r efo crystiau ac wedi dysgu faint mae popeth yn ei gostio. Rydym ni wedi bod yn dysgu enwi a disgrifio siapiau 2d fflat fel crempog a sut i dorri yn ei hanner ac yn ei hanner eto i wneud pedwar chwarter efo cyllell finiog gan gadw ein bysedd yn ddiogel.
Fel ac a ddwedwyd gan Oskar.

HELO MELYN



Rydym ni wedi cael diwrnod helo melyn. Rydym ni wedi gofyn i ffrindiau 'wyt ti yn ok?' Rydym ni yn hapus i helpu os oes rhywun yn teimlo yn drist. Ein neges ni ydi 'ti ddim ar ben dy hun yn Ysgol Pennal. Rydym ni wedi gwneud melyn efo neges neis i atgoffa pawb. Roedd y diwrnod helo melyn yn hwyl achos cawsom ni helfa felyn, gwneud ioga a chreu Mr a Mrs Hapus i Helpu a Haul Hyderus Iach efo pasta, banana, bara a menyn melyn.
Fel ac a ddwedwyd gan Mabli ac Abi.



DIWRNOD DANGOS CERDYN COCH I HILIAETH

Bu disgyblion yr ysgol yn rhan o Ddiwrnod Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, gan wisgo coch a chymryd rhan mewn gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharch. Roedd yn ddiwrnod gwerthfawr a helpodd i atgyfnerthu ein neges fod hiliaeth ddim yn cael lle yn ein hysgolion nac yn ein cymdeithas.

SHWMAE SU'MAI





Rydym yn falch o gymryd rhan yn Niwrnod Shwmae Su'mae, sef diwrnod sy'n annog pawb i ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg. Trwy weithgareddau hwyliog, bu'r plant yn datblygu eu hyder a'u balchder yn ein hiaith. Roedd yn wych gweld cymaint o frwdfrydedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol.

COGURDD A POBURDD

Bore Dydd Mercher cyn gwyliau hanner tymor, aeth Bleddyn, Curig ac Amy i ymuno gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas ar gyfer cystadleuaeth Cogurdd a Poburdd. Roedd y safon yn arbennig o dda a pawb wedi gwneud eu gorau glas. Llongyfarchiadau i pob un o'r disgyblion am gystadlu.





POBURDD
3ydd - Amy
COGURDD
1af - Amy
3ydd - Bleddyn







CWIS CYMRU



Bore Dydd Iau olaf cyn Hanner Tymor, cymerwyd rhan yn Cwis Cymru oedd wedi cael ei drefnu fel rhan o'r Siarter Iaith gan E-Sgol.
Roedd 1909 o dimau yn cystadlu a 182 o ddosbarthiadau ar draws Cymru.
Roedd pob un grwp wedi gwneud yn arbennig o dda a dod yn safle 102, 466 a 509. Ond, daeth grwp Bleddyn yn safle 45 allan o 1909 - arbennig.
Cawsom glywed can Seren a Sbarc ar gychwyn y cwis a roedd pawb wrth eu boddau yn cael cymryd rhan.



GWASANAETH DIOLCHGARWCH





Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch prynhawn Dydd Iau ola cyn hanner tymor. Roedd yr Eglwys yn llawn. Ein thema eleni oedd 'Ein Dyfodol Ni' ar gyfer y plant hynaf ac 'Ailgylchu' ar gyfer y plant bach. Diolch yn fawr i Rev Ruth am ddweud ychydig eiriau ar ddiwedd y gwasanaeth.
Bydd y casgliad bwyd eleni yn mynd i Banc Bwyd Bro Ddyfi.

